

Tasg 5

(Heriol, eitem 3)

Mae'r gair 'annibynadwy' yn cael ei ffurfio o 'an' + 'dibynadwy'. Pa dreigladd sy'n digwydd wrth roi'r ddwy ran at ei gilydd?

Gwnewch yr un fath gyda'r geiriau hyn - rhwch 'an' o'u blaenau nhw i'w troi'n negyddol.

Gair	'An' + gair
1. trefn	
2. dioddefol	
3. cyson	
4. priodol	
5. caredig	
6. diolchgar	
7. tebygol	
8. dymunol	

Ateb: Y treigladd trwynol; 1. anhrefn; 2. annioddefol; 3. anghyson; 4. amhriodol; 5. angharedig; 6. anniolchgar; 7. annhebygol; 8. annymunol.

Mae treigladau arall yn digwydd wrth droi'r rhain yn negyddol. Pa un?

Gair	'An' + gair
9. bodlon	
10. mantais	
11. gonest	
12. gwastad	
13. bwriadol	
14. gwybodus	

Ateb: Y treigladau meddal; 9. anfodlon; 10. anfantais; 11. anonest; 12. anwastad; 13. anfwriadol; 14. anwybodus.